WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

# Dinas a Sir Abertawe

Cyhoeddwyd: Mai 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 238A2014



# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Steve Barry a Samantha Spruce o dan gyfarwyddyd Jane Holownia. Fe'i cefnogwyd gan waith PricewaterhouseCoopers LLP.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Yn 2012-13 gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn cyflawni ei flaenoriaethau gwella ac eithrio ym maes ailgylchu lle mae'r gwelliant wedi parhau'n araf 7

Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n adrodd ar ba mor dda y mae'n perfformio ac mae'n datblygu dull cyson o hunanwerthuso 16

Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei allu i sbarduno gwelliant drwy gwblhau'r gwaith o ailstrwythuro'i strwythur rheoli a sefydlu strategaeth ar gyfer rheoli'r heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu 20

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 26

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Abertawe a Chyngor Abertawe 27

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 29

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Abertawe 31

# Adroddiad cryno

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a PricewaterhouseCoopers: mae hefyd yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru hefyd. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Dinas a Sir Abertawe (y Cyngor) i ddarparu a gwerthuso gwasanaethau mewn perthynas â 2012-13, ei waith i gynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, mae'n cofnodi casgliadau'r Archwilydd Cyffredinol ar y tebygolrwydd y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 yn ei farn ef.

2 Daethom i'r casgliad, yn 2012-13, fod y Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran sicrhau gwelliannau heblaw ym maes ailgylchu lle mae'r gwelliant wedi parhau'n araf. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Roedd gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn ddigonol gyda rhagolygon da ar gyfer gwella.
- Mae dull y Cyngor o leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) wedi cadw ffocws strategol cryf ac mae nifer y bobl NEET yn Abertawe wedi parhau i ostwng.
- Gwnaeth y gwasanaethau cymdeithasol gynnydd da yn moderneiddio eu gwasanaethau i oedolion a chryfhau darpariaeth gwasanaethau plant. At ei gilydd, o ystyried natur amrywiol a lefel y galw a wynebai'r Cyngor, mae wedi darparu lefel dda o wasanaethau.
- Er bod cyfraddau ailgylchu wedi gwella, methodd y Cyngor â chyrraedd y targed ailgylchu statudol o 52 y cant yn 2012-13 ac mae ei berfformiad wedi parhau'n wael o gymharu â chynghorau eraill Cymru.
- Mae'r Cyngor wedi parhau i lwyddo i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn ei gynlluniau cyflogadwyedd ac roedd ei berfformiad yn erbyn data cyflogaeth cenedlaethol allweddol yn gadarnhaol.

3 Yn ogystal, gwelsom fod y Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n adrodd ar ba mor dda y mae'n perfformio a'i fod yn datblygu dull cyson o hunanwerthuso. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- cynhyrchodd y Cyngor adroddiad hygyrch iawn ar ei berfformiad ond ni wnaeth egluro'n gyson pa mor llwyddiannus yr oedd wedi bod yn cyflawni ei amcanion;
- araf fu'r gwelliant o ran adrodd ar wella perfformiad;
- mae trefniadau craffu'r Cyngor yn dod yn fwy sefydledig ond does dim digon o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd panel;

- at ei gilydd, roedd gan y Cyngor systemau da ar waith ar gyfer cynhyrchu data  dangosydd perfformiad ac mae'n gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau o ran gosod targedau; ac
- roedd y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau adrodd ariannol a defnydd o adnoddau.

4 Yn olaf, gwelsom fod y Cyngor, yn ystod 2013-14, wedi cryfhau ei allu i sbarduno gwelliant drwy gwblhau'r gwaith o ailstrwythuro'i strwythur rheoli a sefydlu strategaeth ar gyfer rheoli'r heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- Yn sgil adolygu ei amcanion gwella, cyhoeddodd y Cyngor ei gynllun gwella corfforaethol yn hwyrach nag arfer.
- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i gyflwyno newidiadau i'w uwch dîm rheoli a gwnaed penodiadau i bob swydd allweddol bellach. Mae gallu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau allweddol yn dda.
- Mae'r Cyngor wedi cychwyn ar strategaeth i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu. Mae cau'r bwlch ariannol a ragfynegwyd yn dibynnu nawr ar weithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus.
- Mae'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

5 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Mae'r gwaith hwn wedi'i gyflawni gan staff Swyddfa Archwilio Cymru a PricewaterhouseCoopers, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd), rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, noda'r adroddiad gasgliad yr Archwilydd Cyffredinol ynghylch a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

6 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

7 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella – os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella – os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

8 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

## Yn 2012-13 gwnaeth y Cyngor gynnydd da yn cyflawni ei flaenoriaethau gwella ac eithrio ym maes ailgylchu lle mae'r gwelliant wedi parhau'n araf

### Roedd Estyn o'r farn bod gwasanaethau addysg i blant a phobl ifanc yn ddigonol gyda rhagolygon da ar gyfer gwella

9 Roedd y Cyngor wedi gosod amcanion gwella i'w hun i wella deilliannau dysgu disgyblion a'u helpu i gyflawni eu potensial. Mae'r adran hon yn crynhoi canlyniadau arolygiad gan Estyn a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013.

10 Ym mis Mehefin 2013, arolygodd Estyn wasanaethau addysg y Cyngor ar gyfer plant a phobl ifanc. Mae'r arolygwyr yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad cyfredol a'r gallu i wella. Caiff y gwasanaethau eu gwerthuso ar raddfa bedwar pwynt: rhagorol, da, digonol ac anfoddhaol. Cyhoeddodd Estyn ei adroddiad ar yr arolygiad ym mis Medi 2013 a barnai fod gwasanaethau'r Cyngor yn ddigonol gyda rhagolygon da ar gyfer gwella.

11 Roedd Estyn o'r farn bod gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl yn ddigonol oherwydd:

- 'mae perfformiad yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4 wedi gwella'n gyson yn y blynyddoedd diwethaf ac mae perfformiad mewn ysgolion uwchradd yn dda, yn enwedig ar gyfer y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg neu Gymraeg mamiaith a mathemateg;
- yn y ddwy flynedd ddiwethaf, mae Abertawe wedi bodloni holl feincnodau Llywodraeth Cymru ar gyfer perfformiad ar sail hawl i gael prydau ysgol am ddim;
- mae cyfraddau presenoldeb mewn ysgolion uwchradd yn dda;
- mae cyfraddau gwaharddiadau parhaol a thymor byr penodol wedi gwella ac yn well na chyfartaleddau Cymru;
- mae ymrwymiad yr awdurdod i ddatblygu gallu ysgolion i fodloni anghenion disgyblion ag anghenion dysgu penodol eu hunain, a gwaith y gwasanaeth i wireddu'r uchelgais hon, yn gryfderau arbennig;
- mae'r strategaeth Atal ac Ymyrryd yn Fuan, sy'n cynnwys cydweithio effeithiol rhwng ystod o wasanaethau addysg ac asiantaethau eraill, wedi bod yn llwyddiannus wrth wella cyrhaeddiad a phresenoldeb, a lleihau cyfraddau gwaharddiadau a throseddau ymhlith pobl ifanc;
- mae gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid strategaeth lwyddiannus iawn ac ystod o ddulliau sydd wedi lleihau canran y bobl ifanc nad ydynt yn ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) yn sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf;
- mae 'Rhaglen Ansawdd mewn Addysg 2020', sy'n uchelgeisiol o ran moderneiddio ysgolion, yn cael ei hategu gan flaenoriaethau clir i leihau lleoedd dros ben a bodloni'r galw am addysg Gymraeg; ac
- mae'r awdurdod yn gweithio'n dda gydag ystod o bartneriaid i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu manteisio ar ystod briodol o wasanaethau cymorth ieuenctid.'

12 Fodd bynnag, noddodd Estyn:

- ‘mae cyfraddau presenoldeb cynradd ymhell islaw’r cyfartaledd, gyda bron i hanner yr ysgolion yn y 25 y cant isaf o gymharu ag ysgolion tebyg ar y meincnodau prydau ysgol am ddim;
- mae gormod o ysgolion nad ydynt yn gwella’n ddigon cyflym pan nodir bod angen gweithgarwch dilynol arnynt ar ôl arolygiad craidd ac mae gormod ohonynt mewn categorïau o bryder;
- caiff disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 sy’n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol eu hailintegreiddio yn ôl i ysgolion prif ffrwd ac nid yw’r ddarpariaeth yn yr uned cyfeirio disgyblion cyfnod allweddol 4 yn ddigon da; ac
- nid yw’r prosesau i sicrhau ansawdd gwaith swyddogion yn ddigon effeithiol i wneud yn siŵr bod pob swyddog yn herio pob ysgol i wella yn gyson.’

13 Roedd Estyn o’r farn bod rhagolygon da ar gyfer gwelliant oherwydd:

- ‘mae arweinyddiaeth y cyngor yn gryf yn wleidyddol ac ar lefel strategol ac yn dangos ymrwymiad cadarn i wella gwasanaethau addysg yn Ninas a Sir Abertawe;
- mae gan yr arweinydd a’r prif weithredwr weledigaeth glir ac uchelgeisiol ar gyfer darpariaeth addysg a deilliannau ar gyfer plant a phobl ifanc, sy’n cael ei deall yn dda gan uwch swyddogion, aelodau etholedig a rhanddeiliaid, ac eir i’r afael â’r weledigaeth yn uniongyrchol trwy gynlluniau strategol;
- mae newid wedi digwydd ar gyflymder sylweddol yn y ddwy flynedd ddiwethaf ac wedi arwain yn gyflym at ddull amlasiantaethol effeithiol i fynd i’r afael â thlodi a gwella cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc a’u teuluoedd;
- mae uwch swyddogion ac aelodau etholedig wedi dangos eu parodrwydd i weithredu’n gyflym a gwneud penderfyniadau anodd i wella darpariaeth a deilliannau;
- mae gan yr awdurdod ystod eang iawn o ddata, a ddefnyddir yn dda i dargedu ymyriadau ac arfarnu ei waith;
- mae mecanweithiau corfforaethol sefydledig i fonitro perfformiad, sy’n arwain at gamau penodol ac ymyriadau ar gyfer gwella;
- mae swyddogion yn arfarnu effaith mentrau penodol yn dda;
- mae gan Abertawe hanes sefydledig o weithio mewn partneriaeth i wella safonau a chyfleoedd ar gyfer dysgwyr a’u teuluoedd, gyda chynlluniau a strategaethau partneriaeth lefel uchel sy’n canolbwyntio’n glir ar roi blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar waith;
- mae’r awdurdod yn defnyddio adnoddau’n effeithiol trwy reolaeth ariannol ofalus a datblygu proses cynllunio ariannol tymor canolig, a thrwy wneud defnydd da o ddata;
- gwnaed cynnydd da wrth fynd i’r afael â mwyafrif yr argymhellion o arolygiadau blaenorol; ac

- mae gan yr awdurdod hanes da o wella gwasanaethau yn llwyddiannus lle nodir diffygion.'

14 Fodd bynnag, nododd Estyn:

- 'ni chaiff prosesau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd eu cymhwyso'n ddigon cyson o fewn gwasanaethau addysg i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio ymhlith staff;
- yn aml, nid yw targedau addysg yn ddigon heriol; ac
- mae adolygiadau blynyddol o wasanaethau addysg yr awdurdod a'r adroddiad hunanarfarnu a baratowyd ar gyfer yr arolygiad yn rhoi dadansoddiad rhy gadarnhaol o waith yr awdurdod mewn rhai meysydd.'

15 Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu Estyn yn www.estyn.gov.uk. Mae Estyn wedi gwneud nifer o argymhellion y dylai'r Cyngor fynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau gwelliannau:

- 'datblygu a rhoi strategaeth ar waith i wella lefelau presenoldeb mewn ysgolion cynradd;
- sicrhau ansawdd gwaith swyddogion i sicrhau cysondeb gwell yn lefel yr her y maent yn ei chynnig i ysgolion;
- gwella arfarniad swyddogion o ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion i wneud yn siŵr bod ysgolion sy'n tanberfformio yn cael eu nodi a'u cefnogi'n gyflym;
- gwella ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion hynny sy'n cael eu haddysgu heblaw yn yr ysgol, yn enwedig i godi safonau cyflawniad a chynorthwyo ailintegreiddio yn ôl i ysgolion; a
- gwella cysondeb arweinyddiaeth ar draws yr holl wasanaethau addysg ac ansawdd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant mewn gwasanaethau addysg.'

## Mae dull y Cyngor o leihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi cadw ffocws strategol cryf ac mae nifer y bobl NEET yn Abertawe wedi parhau i ostwng

16 Yn 2013, cynhaliwyd astudiaeth genedlaethol gennym yn canolbwyntio ar a oedd awdurdodau lleol yn gwella cyfleoedd bywyd pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET). Mae lleihau niferoedd y bobl ifanc sy'n NEET yn flaenoriaeth a adlewyrchir yn nifer o gynlluniau strategol y Cyngor, ac mae'n un o gerrig sylfaen y sefydliad. Roedd y Cyngor yn un o'r wyth yr ymwelwyd â hwy fel rhan o astudiaeth genedlaethol a chafodd ei ddewis oherwydd hyd a lled ac ansawdd ei ffordd o weithredu.

17 Mae data Gyrfa Cymru yn dangos bod cyfran y bobl ifanc 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ledled Cymru wedi disgyn o 5.7 y cant yn 2009 i 4.2 y cant yn 2012. Mae'r Cyngor yn un o dri yng Nghymru sydd wedi gweld y gostyngiad mwyaf, o 6.4 y cant yn 2009 i 3.2 y cant yn 2012.

18 Mae dangosyddion strategol Llywodraeth Cymru yn dangos bod y Cyngor wedi lleihau'n sylweddol ganran y plant sy'n derbyn gofal ac yn gadael yr ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau o 9.1 y cant yn 2011-12 i 2.9 y cant yn 2012-13. Roedd canran yr holl blant a adawodd yr ysgol yn 16 oed heb unrhyw gymwysterau yn ystod yr un cyfnod yn ddigyfnewid (0.4 y cant), sy'n well na chyfartaledd Cymru.

Arddangosyn 1 – Mae amrywiaeth o arferion cadarnhaol y Cyngor yn arwain at welliannau i bobl ifanc

**Mae strategaeth gref y Cyngor yn lleihau cyfran y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**

Nododd astudiaeth a dadansoddiad cenedlaethol Bwrdd Rhaglen Effeithlonrwydd ac Arloesi Llywodraeth Cymru yn 2011 ffocws parhaol a chyfuniad o nodweddion a oedd yn cyfrannu at leihau nifer y rhai mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant:

- **Ffocws strategol:** yn ogystal â mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc rhwng 16 a 18 oed mae wedi cael ei ymestyn gan y Cyngor i gynnwys strategaeth i'r rhai nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar gyfer pobl rhwng 18 a 24 oed gyda phartneriaid allweddol yn Gyrfa Cymru, sefydliadau addysg bellach a darparwyr dysgu sy'n seiliedig ar waith. Mae gweithdai a ddarperir gan Kafka Brigade UK yn darparu gwell dealltwriaeth o faterion drwy ymgysylltu â phobl ifanc ac mae'r strategaeth yn nodi'r unigolion sy'n debygol o fod yn y risg mwyaf.
- **Nodi grwpiau targed**: cynllunio a darparu cymorth penodol ac olrhain canlyniadau ymysg y boblogaeth pobl ifanc.
- **Gweithio mewn partneriaeth a rhannu gwybodaeth**: datblygu dealltwriaeth o'r rolau a'r gwasanaethau sydd ar gael gan bartneriaid, gan neilltuo cyfrifoldebau rhwng partneriaid a rhannu data.

## Gwnaeth y gwasanaethau Cymdeithasol gynnydd da yn moderneiddio eu gwasanaethau i oedolion a chryfhau darpariaeth gwasanaethau plant. At ei gilydd, o ystyried natur amrywiol a lefel y galw a wynebai'r Cyngor, mae wedi darparu lefel dda o wasanaethau.

19 Mae gan y Cyngor ddau amcan gwella yn ymwneud â gweithgarwch gofal cymdeithasol: 'sicrhau bod gan oedolion iau, pobl hŷn a'u gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn trwy drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion' a 'sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau Plant a Theuluoedd'. Mae AGGCC yn gwerthuso gwasanaethau cymdeithasol bob blwyddyn.

20 Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013* ar gyfer y gwasanaethau cymdeithasol yn Abertawe. Cynigiai'r adroddiad asesiad cadarnhaol ar y cyfan o berfformiad y Cyngor ym maes gwasanaethau oedolion a phlant fel ei gilydd. Tynnai'r adroddiad sylw at rai agweddau da o'r ddarpariaeth a meysydd lle gwelwyd cynnydd. Roedd hefyd yn amlinellu rhai o'r heriau sy'n wynebu'r Cyngor, gan nodi meysydd ar gyfer gwella. Mae'r adroddiad i'w weld ar wefan AGGCC: www.cssiw.org.uk.

1 Bwrdd Effeithlonrwydd ac Arloesi - New Models of Service Delivery - A Study of Approaches to Increase the Proportion of Young People in Education, Employment or Training, with a Focus on Potential and Actual Efficiency Savings. Adroddiad Terfynol. Arad Research Gorffennaf 2011

21 Noda AGGCC fod Gwasanaethau Cymdeithasol Abertawe wedi gwneud cynnydd da dros y blynyddoedd diwethaf yn moderneiddio eu dull o ddarparu gwasanaethau i oedolion a chryfhau gwasanaethau plant. At ei gilydd, o ystyried natur amrywiol a lefel y galw sy'n ei wynebu, mae'r Cyngor yn darparu lefel dda o wasanaethau. Mae datblygu'r gweithlu wedi bod, ac yn parhau i fod, yn allweddol i'w lwyddiant.

22 Roedd adroddiad blynyddol y cyfarwyddwr ar effeithiolrwydd y gwasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer 2012-13 ac *Adroddiad Perfformiad Blynyddol* y Cyngor ar gyfer 2012-13 yn tynnu sylw at y pwysau cynyddol y mae'r gwasanaethau cymdeithasol yn eu hwynebu oherwydd galw cynyddol a chymhlethdod anghenion pobl, cynnydd yn nifer plant sy'n derbyn gofal a'r angen i sicrhau lefelau sylweddol o arbedion ariannol dros y tair blynedd nesaf. Roedd y Cyngor yn parhau i wneud cynnydd o ran trawsnewid ei wasanaethau cymdeithasol i oedolion ac roedd yn datblygu amrediad o wasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol ar gyfer plant gan leihau'r galw am wasanaethau cymdeithasol ffurfiol.

23 Ar hyn o bryd rydym yn cynnal adolygiad cenedlaethol o waith diogelu llywodraeth leol yng Nghymru. Byddwn yn cyflwyno adroddiadau pellach ar hyn yn ein *Llythyr Asesu Gwelliant* yn haf 2014.

## Er bod cyfraddau ailgylchu wedi gwella, methodd y Cyngor â chyrraedd y targed ailgylchu statudol o 52 y cant yn 2012-13 ac mae ei berfformiad wedi parhau'n wael o gymharu â chynghorau eraill Cymru


24 Gan gydnabod pwysigrwydd cyflawni targedau Llywodraeth Cymru a'i berfformiad cymharol wael, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu amcan gwella er mwyn 'lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hybu a hwyluso'r gwaith o ddarparu gwasanaethau rheoli ac ailgylchu gwastraff. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorau helpu dinasyddion i ailgylchu gwastraff, ac mae'n casglu gwybodaeth am gyfraddau ailgylchu yn ogystal ag am wahanol fathau o wasanaethau y mae gwahanol gynghorau yn eu darparu. Erbyn 2013 roedd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gynghorau ailgylchu 52 y cant o wastraff, gwella'r cyfraddau'r gwastraff sy'n cael ei ailgylchu a lleihau'r gyfradd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi. Mae'r Cyngor wedi bod yn cynnal amrywiaeth o fentrau er mwyn gwella ailgylchu a lleihau cyfradd y gwastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi; fodd bynnag, roedd ei gyfradd ailgylchu o 47.87 y cant yn 2012-13 yn golygu ei fod wedi methu â bodloni targed Llywodraeth Cymru.

25 Yn 2012-13, darparodd y Cyngor fwy o gyllid tuag at ei wasanaethau rheoli gwastraff er mwyn helpu i wella lefel y gwastraff sy’n cael ei ailgylchu. Mabwysiadodd nifer o wahanol fentrau er mwyn annog pobl i ailgylchu mwy, yn cynnwys: cynnal ymgyrch fawr o ddrws i ddrws; cyflwyno trefniadau ailgylchu rwbel cartref; ac agor Siop Gornel sef siop ailddefnyddio yn y Ganolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref yn Llansamlet. Hefyd, penderfynodd y Cyngor fwrw ymlaen â threfniadau i gaffael gorsaf ddidoli gwastraff.

26 Mae’r gwastraff trefol sy’n cael ei ailgylchu, ei ailddefnyddio neu ei gompostio wedi cynyddu yn ystod y pedair blynedd diwethaf (gweler Arddangosyn 2) ac mae hynny’n beth cadarnhaol. Fodd bynnag, nid yw cyflymder y gwelliant wedi galluogi’r Cyngor i gyflawni’r targedau cenedlaethol ac er nad yw nifer o gynghorau eraill wedi cyflawni 52 y cant, Abertawe oedd un o’r gwaethaf yng Nghymru, ac yn yr 20fed safle o’r 22 cyngor yng Nghymru.

Arddangosyn 2 – Perfformiad ailgylchu’r Cyngor

Mae canran y gwastraff trefol a aeth i’w ailgylchu/ailddefnyddio/compostio wedi gwella ond roedd yn dal i fod yn is na tharged Llywodraeth Cymru o 52 y cant ar gyfer 2012-13




*Ffynhonnell: Adolygiad Perfformiad Blynyddol Dinas a Sir Abertawe 2012-13*

27 Mae camau unioni ar y gweill bellach i geisio mynd i'r afael â'r perfformiad hwn. Cynhaliodd Rhaglen Gweithredu'r Cynllun Gwastraff ac Adnoddau[2] (WRAP Cymru) adolygiad yn 2012-13 o'r ddarpariaeth ym mhob un o ganolfannau ailgylchu gwastraff cartref y Cyngor er mwyn nodi opsiynau safleoedd penodol ar gyfer gwella perfformiad ailgylchu a lleihau costau cyffredinol lle bynnag y bo'n bosibl. Roedd yr adolygiad hwn hefyd yn cynnwys cymharu perfformiad y Cyngor â chynghorau â chanolfannau ailgylchu gwastraff cartref a oedd yn perfformio ar lefel uchel. Bydd y Cyngor yn ystyried y canfyddiadau yn ystod 2013-14. Mae camau allweddol eraill yn cynnwys cyfyngu nifer y bagiau o sbwriel y gall preswylwyr eu rhoi allan i'w casglu bob pythefnos i dri. Daw'r newid hwn i rym ym mis Ebrill 2014 ac mae'n dilyn y llwyddiant a welwyd gan gynghorau eraill wrth gyflwyno menter debyg, er enghraifft Sir Fynwy.

28 Roedd y Cyngor wedi gwella canran yr achosion o dipio anghyfreithlon yr adroddir yn eu cylch ac a gliriwyd o fewn pum diwrnod gwaith o 86.1 y cant yn 2011-12 i 92.9 y cant yn 2012-13, sy'n well na'i darged ar gyfer 2012-13.

## Mae'r Cyngor wedi parhau i lwyddo i gynyddu'r nifer sy'n cymryd rhan yn ei gynlluniau cyflogadwyedd

29 Roedd gwella cyflogadwyedd pobl drwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r Cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith yn parhau'n un o amcanion gwella'r Cyngor yn 2012-13. Parhaodd y Cyngor i ganolbwyntio ar wella cyfleoedd gwaith drwy ei gynllun *Mwy na Brics a Morter* a'i brosiect *Gweithffyrdd*.[3]

30 Mae'r Cyngor wedi bodloni ei dargedau yn erbyn yr amcan gwella hwn. Er enghraifft, llwyddodd y Cyngor i gynyddu nifer y prosiectau adfywio a oedd yn cynnwys cymalau budd cymdeithasol gyda'r nod o ddarparu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i'r di-waith a'r economaidd anweithgar o 12 yn 2011-12 i 17. Mae nifer y sefydliadau sy'n rhan o gynllun *Mwy na Brics a Morter* y Cyngor wedi parhau i gynyddu hefyd. Mae'r Cyngor bellach yn bwriadu adeiladu ar y llwyddiant hwn ac ymestyn y defnydd o gymalau o'r fath mewn contractau gwasanaeth a gofal. Yn yr un modd, cynyddodd nifer y bobl sy'n cael gwaith ar ôl cymryd rhan ym mhrosiect *Gweithffyrdd* y Cyngor o 201 yn 2011-12 i 287 yn 2012-13. Roedd bodlonrwydd cyfranogwyr â'r cynllun wedi gwella hefyd, o 70 y cant yn 2011-12 i 84 y cant yn 2012-13. Fodd bynnag, yn ei Adolygiad Perfformiad Blynyddol, pwysleisiodd y Cyngor fod prinder staff yn y

2 Cwmni di-elw cyfyngedig drwy warant yw WRAP, a sefydlwyd gyda bwrdd annibynnol i hyrwyddo defnydd effeithlon o adnoddau.

3 Mae *Gweithffyrdd* yn mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal unigolion rhag dod o hyd i waith. Mae'r prosiect yn darparu cymorth i chwilio am waith, llunio CV, ffurflenni cais, sgiliau cyfweliad, technegau ffôn a dod o hyd i hyfforddiant. Hefyd, caiff y cyfranogwyr eu paru â busnesau lleol, gan eu helpu i ennill profiad hanfodol sydd ei angen i ddod io hyd i waith hirdymor. Dan arweiniad Cyngor Castell-nedd Port Talbot mewn cydweithrediad â Sir Gaerfyrddoin, Sir Benfro a a Dinas a Sir Abertawe, caiff prosiect Gweithffyrdd De Orllewin Cymru bron £13 miliwn o gefnogaeth o Gronfa Gymdeithasol Ewrop drwy Lywodraeth Cymru. Nod menter Mwy na Brics a Morter Dinas a Sir Abertawe yw gwneud adfywio cymdeithasol a chreu swyddi yn rhan o bob contract adeiladu mawr.

gwasanaeth dan sylw wedi bod yn broblem yn ystod y flwyddyn ac roedd yn cydnabod bod angen mynd i'r afael â hyn er mwyn cynnal gwelliant o'r fath.

## Roedd y Cyngor wedi parhau i ddatblygu Strategaeth Sgiliau Iaith ond roedd nifer y siaradwyr Cymraeg yn y ganolfan gyswllt yn isel iawn

31 Cafodd rôl y Comisiynydd ei chreu gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae disgwyl y daw pwerau newydd i rym drwy is-ddeddfwriaeth cyn diwedd 2014 i orfodi safonau ar sefydliadau. Tan hynny, bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg drwy bwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

32 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob awdurdod lleol yng Nghymru i arolygu a chynghori ar weithredu cynlluniau iaith. Cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob awdurdod lleol wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro; yn darparu ymateb ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen. Dyma sylwadau'r Comisiynydd mewn perthynas ag Abertawe:

33 'Mae'r Cyngor yn parhau i weithio ar sefydlu Strategaeth Sgiliau Iaith a chasglu a dadansoddi sgiliau iaith y gweithlu. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen i hyn fod yn flaenoriaeth yn ystod 2013-2014. Mae nifer y staff sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghanolfan Gyswllt y Cyngor yn isel iawn a bydd sgiliau iaith yn cael ystyriaeth lawn wrth recriwtio. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd ar gyfer cynllunio'r gweithlu drwy recriwtio ar hyn o bryd, felly caiff hyfforddiant iaith ei ddarparu ar gyfer y staff presennol. Mae aelodaeth y Cyngor o Fforwm Iaith Abertawe yn gyfle i rannu gwybodaeth â thrawstoriad o'r gymuned sy'n siarad Cymraeg.'

## Roedd nifer y cwynion a gyflwynwyd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â'r Cyngor yn parhau'n is na chyfartaledd Cymru; ac er bod y nifer a fu'n destun ymchwiliad wedi treblu, roedd y nifer a gadarnhawyd yn is na'r cyfartaledd

34 Bob blwyddyn, mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (yr Ombwdsmon) yn cyhoeddi adroddiad blynyddol yn nodi ystod y cwynion am gyrff cyhoeddus sydd wedi cael sylw yn ystod blwyddyn benodol. Mae'r Ombwdsmon hefyd yn ysgrifennu i gynghorau unigol gan ddarparu trosolwg o'r materion sydd wedi eu hystyried yn ystod y flwyddyn. Yn ei lythyr blynyddol diweddaraf i'r Cyngor ar gyfer 2012-13, nododd yr Ombwdsmon: '[fod]

nifer y cwynion a ddaeth i law yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd, ond, erbyn hyn, y maes sy'n denu'r nifer fwyaf o gwynion yw 'Cynllunio a Rheoli Adeiladu'. Daeth 57 cwyn i law'r Ombwdsmon am y Cyngor o gymharu â chyfartaledd Cymru o 62. Cafwyd cynnydd arwyddocaol hefyd yn nifer y cwynion yn ymwneud â 'Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant' a 'Cyllid a Threth'. Er bod nifer y cwynion sydd wedi bod yn destun ymchwiliad wedi treblu, cafwyd hefyd nifer fwy na'r cyfartaledd o setliadau gwirfoddol ac atebion sydyn. Roedd fy swyddfa i hefyd wedi cyhoeddi llai na'r cyfartaledd o adroddiadau a gafodd eu 'cadarnhau'. O ran amseroedd ymateb eich Cyngor, braf yw nodi bod traean o'r ymatebion wedi dod i law o fewn llai na thair wythnos er bod traean arall wedi cymryd dros bum wythnos.'

# Mae'r Cyngor wedi gwella'r ffordd y mae'n adrodd ar ba mor dda y mae'n perfformio ac mae'n datblygu dull cyson o hunanwerthuso

## Cynhyrchodd y Cyngor adroddiad hygyrch iawn ar ei berfformiad ond ni wnaeth egluro'n gyson pa mor llwyddiannus yr oedd wedi bod yn cyflawni ei amcanion

35 Yn *Llythyr Asesu Gwelliant* yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor ar 26 Tachwedd 2013, nodwyd bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad yn ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13* (yr Adolygiad) cyn y dyddiad cau statudol ar 31 Hydref 2013. Mae'r Adolygiad a fersiwn hawdd i'w darllen i'w gweld ar wefan y Cyngor ac mae copïau caled ar gael hefyd. Yn unol â gofynion statudol, roedd yr Adolygiad yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan y dangosyddion perfformiad statudol cenedlaethol ac roeddynt yn cynnwys adran yn amlinellu prif weithgareddau cydweithredol y Cyngor a chrynodeb o gynnydd yn sicrhau canlyniadau.

36 Ond rydym hefyd wedi nodi'r meysydd canlynol lle gall y Cyngor gryfhau ei drefniadau ymhellach:

- Nid oedd cysondeb yn y ffordd yr aeth y Cyngor ati i nodi ei farn ei hun ynglŷn ag i ba raddau y llwyddodd i gyflawni pob amcan gwella yn adran 'Crynodeb o hunanwerthusiadau' yr Adolygiad.
- Cyfeiriai'r Adolygiad at wybodaeth fwy ansoddol na'r llynedd ond mesurau perfformiad meintiol oedd y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd er hynny. Roedd lle i ehangu'r defnydd o wybodaeth fwy ansoddol a chyd-destunol i gryfhau'r modd y gwerthusai'r Cyngor ei berfformiad.
- Ni wnaeth y Cyngor ddefnydd llawn o wybodaeth gymharol, yn cynnwys perfformiad hanesyddol a chymariaethau wedi'u targedu'n well â chynghorau eraill tebyg, er mwyn dangos sut yr oedd yn dysgu o'i ymdrechion ei hun i wella ac ymdrechion cynghorau eraill.

## Araf fu'r gwelliant o ran adrodd ar wella perfformiad

37 Yn *Llythyr Asesu Gwelliant* yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor ar 5 Tachwedd 2013, nodwyd bod y Cyngor yn adolygu ac yn newid ei drefniadau corfforaethol a rheoli perfformiad i sicrhau bod ganddo systemau priodol ar waith i ymateb i'r heriau sydd o'i flaen. Mae'r adolygiad yn parhau i fynd rhagddo. Buddsoddodd y Cyngor yn sylweddol mewn trefniadau i gyflwyno dull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau 18 mis yn ôl ac mae'n bwriadu adeiladu ar egwyddorion y dull er mwyn symud tuag at system cerdyn sgorio cytbwys ar lefel y gorfforaeth a gwasanaethau. Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y dull hwn yn hwyluso'r broses o integreiddio ei waith cynllunio corfforaethol ac ariannol a chynllunio gwasanaethau, gan roi mwy o sylw i risg a pherfformiad yn ei gynlluniau a'i adroddiadau. Mae trefniadau dros

dro ar waith ar hyn o bryd. Er enghraifft, bydd trefniadau cyfredol ar gyfer adrodd ar berfformiad yn parhau dros yr ychydig fisoedd nesaf ond mae disgwyl y bydd mwy o sylw'n cael ei roi i adrodd ar gynnydd o ran cyflawni blaenoriaethau'r Cyngor a gwneir defnydd o'r cerdyn sgorio cytbwys i'r perwyl hwn. Bydd symud tuag at ddull corfforaethol o hunanwerthuso yn ganolog i'r trefniadau newydd hyn.

38 Mae'r Cyngor wedi dechrau mynd i'r afael â'n pryderon ni a rheoleiddwyr eraill ynglŷn ag ansawdd a chysondeb ei hunanwerthusiadau. Er enghraifft, yn ei adroddiad arolygiad ym mis Medi 2013, nododd Estyn fod 'swyddogion yn arfarnu effaith mentrau penodol yn 'dda', ond na chaiff 'prosesau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd eu cymhwyso'n ddigon cyson o fewn gwasanaethau addysg i nodi a mynd i'r afael â thanberfformio ymhlith staff; yn aml, nid yw targedau addysg yn ddigon heriol; ac mae adolygiadau blynyddol o wasanaethau addysg yr awdurdod a'r adroddiad hunanarfarnu a baratowyd ar gyfer yr arolygiad yn rhoi dadansoddiad rhy gadarnhaol o waith yr awdurdod mewn rhai meysydd.' Mae dau o'r pum argymhelliad a wnaeth Estyn yn ymwneud â gwella ansawdd gwerthusiadau'r Cyngor.

39 Daeth *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013* AGGCC a adolygai adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'r casgliad fod yr adroddiad blynyddol yn 'integreiddio gweithgaredd perfformiad, yn nodi cynnydd yn erbyn targedau allweddol ac yn amlinellu blaenoriaethau. Mae hyn yn darparu gwybodaeth glir am atebolrwydd cyhoeddus ac yn galluogi dinasyddion Abertawe i benderfynu ar ansawdd ac effeithiolrwydd gwasanaethau lleol.'

40 Gobaith y Cyngor yw rhoi'r dull newydd ar waith o fewn 12 mis ac mae wedi nodi'r meysydd sy'n rhaid iddo'u datblygu'n gyflymach. Mae datblygiad y cardiau sgorio cytbwys bellach yn mynd rhagddo a deallwn fod ymrwymiad corfforaethol i'r dull. Bydd llwyddiant y datblygiad hwn yn hollbwysig er mwyn sicrhau ei fod yn cael ei fabwysiadu'n gyson a'i wreiddio o fewn y sefydliad drwyddo draw. O'r blaen, mabwysiadwyd dulliau cymysg gan wahanol adrannau ond mae'r hinsawdd ariannol yn golygu bod y Cyngor yn cydnabod yr angen i sicrhau dull cyson o reoli perfformiad ar draws y sefydliad.

## Mae trefniadau craffu'r Cyngor yn dod yn fwy sefydledig ond nid oes digon o wybodaeth ar gael i'r cyhoedd cyn cyfarfodydd y panel

41 Newidiwyd trefniadau craffu'r Cyngor ym mis Hydref 2012 ac maent wedi bod ar waith bellach ers bron 18 mis. Pwyllgor y Rhaglen Graffu yw'r prif bwyllgor cydgysylltiol a throsfwaol sy'n rheoli rhaglen graffu'r Cyngor a'r brif system ar gyfer gwneud Aelodau Cabinet y Cyngor yn atebol. Mae hefyd yn penodi a phennu cylch gwaith paneli craffu eraill. Ceir dau fath o banel: paneli ymchwilio sy'n cynnal adolygiadau manwl ar sail gorchwyl a gorffen; a phaneli perfformiad sy'n monitro perfformiad mewn meysydd penodol, er enghraifft addysg a gwasanaethau cymdeithasol. Mae pob panel yn adrodd yn ôl i Bwyllgor y Rhaglen Graffu.

42 Er y cyhoeddir hysbysiadau am gyfarfodydd Pwyllgor y Rhaglen Graffu, a'r cofnodion, ni wneir hynny ar gyfer y paneli craffu. Bydd canlyniadau cyfarfodydd yn dod yn hysbys maes o law, ond ni ryddheir gwybodaeth gyhoeddus ymlaen llaw am y cyfarfodydd. Mae paneli perfformiad yn anfon llythyron at yr Aelod Cabinet perthnasol yn amlinellu'r hyn sydd i'w drafod yn ystod cyfarfodydd y panel gan nodi cwestiynau y dymunant i'r Aelod Cabinet eu hystyried. Caiff y llythyron hyn eu gwneud yn gyhoeddus drwy Bwyllgor y Rhaglen Graffu. Mae paneli ymchwilio yn llunio adroddiadau ar ddiwedd eu hymchwiliad, a bydd y rhain i'w gweld ar wefan y Cyngor. Bellach hefyd, mae'r Cyngor yn creu blog sy'n rhoi cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyhoedd am y materion sy'n cael eu trafod. Mae'r cyfarfodydd yn agored i'r cyhoedd ond ni eir ati fel mater o drefn i hysbysebu dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd ar wefan y Cyngor. Mae gwybodaeth am y cyfarfodydd ar gael drwy ofyn amdano. Rydym yn argymell y dylid adolygu effaith trefniadau craffu newydd y Cyngor ymhellach dros y misoedd nesaf a byddwn yn cyflwyno adroddiadau manylach yn nes ymlaen yn y flwyddyn.

43 Yn ei adroddiad ar yr arolygiad a gyhoeddwyd ym mis Medi 2013, nododd Estyn: 'Mae'r Cyngor wedi sefydlu pwyllgor perfformio i fynd i'r afael â safonau mewn ysgolion. Fodd bynnag, nid yw aelodau'n cael digon o ddata ar lefel ysgol unigol i'w galluogi i fynd ati'n gywir i nodi'r ysgolion hynny sy'n tanberfformio. Nid yw'r pwyllgor perfformio wedi canolbwyntio'n ddigonol ar herio ysgolion sy'n tanberfformio yn y misoedd diwethaf.'

44 Yn ei *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013*, nododd AGGCC: 'Yn y blynyddoedd diweddar, mae Abertawe wedi cael cydnabyddiaeth am ansawdd a chadernid ei drefniadau craffu ac mae wedi diwygio'r trefniadau hynny eleni. Newidiwyd y pwyslais o graffu gwasanaethau iechyd a lles oedolion i bwyllgor rhaglen graffu strategol, sy'n cwmpasu holl waith y cyngor. Ceir is-bwyllgor penodol ar gyfer yr holl wasanaethau cymdeithasol sy'n derbyn adroddiadau'n gyson oddi wrth y gwasanaethau i blant a theuluoedd ac i oedolion. Nid yw'n glir eto pa effaith y caiff y trefniadau newydd ar y sylw neu'r gefnogaeth a roddir i'r gwasanaethau cymdeithasol. Fodd bynnag, dywedodd swyddogion y siaradwyd â nhw yn ystod yr ymweliad safle â'r gwasanaethau i oedolion fod y cyfarfod cyntaf yn adeiladol, gyda lefel briodol o gwestiynau a chyfeiriad ar gyfer y dyfodol. Bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol i weld a yw'r trefniadau craffu newydd yn parhau i fod yn gadarn ac yn effeithiol, yn enwedig wrth i'r gwasanaethau cymdeithasol gael eu cynnwys mewn cyfarwyddiaeth gorfforaethol ehangach.'

45 Ymgysylltodd y Cyngor yn gadarnhaol â'r rhaglen arsylwi ar gymheiriaid craffu a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru'r llynedd. Defnyddiwyd yr adborth i lywio gweithdy gwerthuso blynyddol Pwyllgor y Rhaglen Graffu ac mae peth gwaith yn mynd rhagddo ar fynd i'r afael â'r adborth a ddaeth i law. Mae hyn yn cynnwys y rhan sydd i'r cyhoedd ar baneli craffu a chodi ymwybyddiaeth o waith y paneli craffu.

## At ei gilydd, roedd gan y Cyngor systemau da ar waith ar gyfer cynhyrchu data dangosydd perfformiad ac mae'n gweithredu er mwyn mynd i'r afael â gwendidau o ran gosod targedau

46 Daeth ein hasesiad o sampl o fesurau perfformiad y Cyngor a systemau data gweithredol i'r casgliad fod gan y Cyngor broses gasglu data wedi'i sefydlu'n dda ar waith ac mae'n ymroi i weithio gyda gwasanaethau er mwyn gwella trefniadau ymhellach.

47 Rydym wedi lleisio pryderon gennym ynglŷn â pha mor drylwyr oedd dull y Cyngor o osod targedau ac awgrymwyd y dylai prosesau'r Cyngor ar gyfer gosod targedau fod yn fwy tryloyw yn cynnwys mwy o ymwneud ag aelodau ac esbonio'n eglur beth yw ystyr targed sy'n nodi lefel dderbyniol o berfformiad, yn enwedig pan fo'n awgrymu cynnal perfformiad cymharol wael. Deallwn fod y Cyngor bellach wedi ailystyried ei ddull ac yn dychwelyd at gael un targed ar gyfer ei fesurau perfformiad yn hytrach na chael system ddeuol sy'n cynnwys lefel dderbyniol o berfformiad  a tharged i anelu ato.

## Roedd y Cyngor yn cydymffurfio â'i gyfrifoldebau o ran adrodd ariannol a defnydd o adnoddau

48 Yn ddiweddar, rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol ei farn ar gyfrifon y Cyngor ac ar sail y farn honno, cred yr Archwilydd Penodedig fod y broses o baratoi datganiadau ariannol yn foddhaol ar y cyfan. Ceir rhagor o fanylion yn Atodiad 3.

## Mae'r Cyngor wedi cryfhau ei allu i sbarduno gwelliant drwy gwblhau'r gwaith o ailstrwythuro'i strwythur rheoli a sefydlu strategaeth ar gyfer rheoli'r heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu

### Yn sgil adolgyu ei amcanion gwella, cyhoeddodd y Cyngor ei gynllun gwella corfforaethol yn hwyrach nag arfer

49 Yn ein hasesiad o amcanion gwella'r Cyngor a'i gynllun gwella blynyddol (y Cynllun), (Cynllun Gwella Corfforaethol 2013-2017-Gweithredu dros Abertawe Well) daethom i'r casgliad fod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur ond y dylai gyhoeddi ei amcanion gwella ynghynt.

50 Cyhoeddodd y Cyngor y Cynllun ar 1 Awst 2013 mewn ffurf hawdd ei ddefnyddio ar ei wefan hwylus a darllenadwy. Hefyd, cyhoeddodd grynodeb o'i Gynllun. Mae'r crynodeb a'r Cynllun llawn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Cyngor wedi rhoi gwybod i'w bartneriaid fod y Cynllun yn bodoli. Yn 2012, cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ym mis Mai.

51 Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad effeithiol ar ei amcanion gwella arfaethedig ac mae'r Cynllun yn nodi canfyddiadau'r ymgynghoriad hwn a'r modd y llywiodd y broses o ddatblygu'r amcanion gwella.

52 Yn *Llythyr Asesu Gwelliant* yr Archwilydd Cyffredinol i'r Cyngor ar 5 Tachwedd 2013, cydnabuwyd bod yr amcanion gwella'n newydd a bod y Cyngor wedi treulio amser a defnyddio adnoddau sylweddol ar gyfer datblygu'r rhain gan ddefnyddio methodoleg Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau a alwai am fwy o ymwneud swyddogion adrannau gwasanaeth. Nodwyd bod y Cynllun yn fwy cadarn ac o ansawdd gwell na chynlluniau blynyddoedd a fu oherwydd hynny.

53 Fodd bynnag, soniwyd ei bod hi'n bwysig fod y trefniadau cynllunio'n cynnwys digon o amser yn y dyfodol i'r Cyngor allu cyhoeddi ei Gynllun cyn diwedd mis Mehefin fan bellaf. Nodwyd ei fod yn Gynllun pedair blynedd ac y dylai'r broses o'i ddatblygu fod yn gyflymach yn y blynyddoedd sydd i ddod. Deallwn fod gan y Cyngor amserlen ar gyfer cytuno a chyhoeddi diweddariad ei Gynllun ar gyfer 2014-15 erbyn diwedd mis Mehefin. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ei amcanion gwella arfaethedig.

54 Rydym wedi cydnabod hefyd fod y Cyngor wedi gwneud peth cynnydd yn mynd i'r afael â'n hargymhelliad ar gyfer gwella mewn perthynas â datblygu mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Roedd hi'n amlwg fod cryn dipyn o ymgysylltiad wedi bod â phenaethiaid gwasanaethau er mwyn datblygu'r mesurau hyn ac mae'r cysylltiad rhwng y mesurau a'r amcan gwella yn fwy eglur nag yn y blynyddoedd a fu. Fodd bynnag, credwn fod angen gwaith pellach yn y maes hwn o hyd. Roeddem yn siomedig nad oedd y Cyngor wedi symud ymlaen ymhellach ar wneud defnydd gwell o wybodaeth fwy ansoddol er mwyn gwella'i ddulliau o fesur o ystyried ein bod ni wedi cyfeirio at hyn fel argymhelliad ar gyfer gwella o'r blaen a'r amser y mae'r Cyngor wedi'i gymryd yn datblygu ei ddull Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau. Unwaith eto, deallwn fod y Cyngor yn mynd i'r afael â'r pryder hwn ac yn bwriadu defnyddio mwy o wybodaeth gymharol, yn cynnwys cymharu ei weithgareddau a'i berfformiad â chynghorau y tu allan i Gymru. Gwyddom fod y Cyngor yn arfer gwneud hyn yn rheolaidd yn y gorffennol ac rydym yn falch o weld fod hyn yn cael ei ailystyried.

55 Yn ei *Adroddiad Gwella Blynyddol* y llynedd, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod angen gwaith pellach i sicrhau bod cynlluniau busnes ac amcanion gwella'r Cyngor yn cydweddu'n well. Gwelodd ein harchwiliad o amcanion gwella a chynlluniau busnes y Cyngor ar gyfer 2013-14 nad oedd cysylltiadau ar waith rhyngddynt eto. Mae'n galonogol clywed felly fod y Cyngor wedi ceisio mynd i'r afael â hyn yn ddiweddar drwy ddarparu canllawiau ychwanegol i wasanaethau i'w gwneud yn haws iddynt ddangos y cysylltiadau â blaenoriaethau, ymrwymiadau polisi a dogfennau strategol allweddol eraill y Cyngor, er enghraifft *Cynllun Un Abertawe, y cynllun ariannol tymor canolig* ac Abertawe Gynaliadwy.

56 Mae'r Cyngor hefyd yn ystyried datblygu cynllun corfforaethol cyffredinol yn ogystal â'i gynllun gwella, i gwmpasu holl flaenoriaethau'r Cyngor. Nod y Cyngor yw cael cynllun o'r fath ar waith erbyn mis Medi 2014 a bydd yn cynnig mwy o eglurder ynglŷn â sut y caiff ei flaenoriaethau eu hariannu, gyda chysylltiadau mwy eglur â chynllun ariannol tymor canolig y Cyngor a'i strategaeth Abertawe Gynaliadwy. Byddwn yn awyddus i weld sut y mae'r cynllun hwn yn cydweddu â chynlluniau a strategaethau allweddol eraill.

## Mae'r Cyngor wedi cyflwyno newidiadau i'w uwch dîm rheoli a gwnaed penodiadau i bob swydd allweddol bellach. Mae gallu'r Cyngor i ddarparu ei wasanaethau allweddol yn dda.

57 Gwnaeth y Cyngor newidiadau sylweddol i strwythur ei uwch dîm rheoli ar ddechrau 2013, gan symud o strwythur traddodiadol yn seiliedig ar wasanaethau i sylw mwy thematig ar bobl, lleoedd a gwasanaethau corfforaethol. Bellach, gwnaed penodiadau i'r holl swyddi allweddol. Ceir tri yn hytrach na phum cyfarwyddwr corfforaethol, a phob un ohonynt yn adrodd yn ôl i'r Prif Weithredwr.

58 Yn ei *Adolygiad Blynyddol a Gwerthusiad o Berfformiad 2012/2013*, ystyriodd AGGCC allu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol a nododd:

- 'Mae'r Cyngor wedi dweud mai un elfen allweddol o'r rhaglen drawsnewid yw darparu model cymorth sy'n canolbwyntio'n fwy ar y dinesydd, mae pwysigrwydd grŵp staff profiadol a werthfawrogir ac a gefnogir yn hanfodol i hyn. Eleni mae wedi cyflwyno rhaglen hyfforddi sgiliau er mwyn cefnogi a datblygu staff ar gyfer y newidiadau y mae'r sefydliad yn mynd trwyddynt.

- Mae'r gwasanaethau i blant a theuluoedd bellach wedi eu staffio'n llawn er nad yw'r mwyafrif o weithwyr cymdeithasol mor brofiadol ag y byddai'r awdurdod yn ei ddymuno. Yr her yw darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i deuluoedd, a pharhau i gefnogi a datblygu ei weithlu, ar yr un pryd â gwella rhai meysydd o berfformiad. Mae buddsoddiad y llynedd mewn rhaglen o hyfforddiant ychwanegol megis arfer adferol ac arwyddion o ddiogelwch bellach yn dechrau ymsefydlu ac mae'n cael ei ddarparu i bob aelod presennol a newydd o staff. Mae rhaglen blwyddyn gyntaf mewn ymarfer wedi'i sefydlu ac mae'r rhaglen datblygu'r gweithlu'n ymestyn i ddatblygiad proffesiynol parhaus i'r staff i gyd.

- Mae'r Cyngor yn adrodd bod trosiant cymharol isel o staff eleni, sydd wedi gostwng o 13% yn y flwyddyn flaenorol i ychydig dros 8%. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod salwch staff yn destun pryder o hyd. Er y bu gostyngiad bychan mewn cyfraddau salwch ar draws yr awdurdod, bu cynnydd yn y cyfraddau salwch yn y gwasanaethau i blant a theuluoedd.

- Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau a chefnogi gweithwyr cymdeithasol i gynnal eu cofrestriad gyda Chyngor Gofal Cymru ac yn cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus hefyd'.

59 Nododd AGGCC hefyd: 'Cafwyd cefnogaeth gorfforaethol dda i'r gwasanaethau cymdeithasol gyda gweledigaeth a chyfeiriad clir, fel y mae'r strategaethau cadarn a chynllun gwella corfforaethol yn ei ddangos.' Mae prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol newydd bellach yn ei swydd ac mae'r AGGCC wedi dweud: 'Er nad yw'r swydd ar lefel cyfarwyddwr corfforaethol, mae'r cyngor wedi rhoi ymrwymiad na fydd yn newid nac yn lleihau'r lefel o gefnogaeth i'r gwasanaethau cymdeithasol a welwyd o'r blaen. Mae'r prif swyddog gwasanaethau cymdeithasol yn aelod o'r bwrdd gweithredol a bydd yn adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr ar bob mater gweithredol tra bo'r swydd yn rhan, yn rheolaethol, o gyfarwyddiaeth gorfforaethol pobl.' Fodd bynnag, nododd AGGCC ymhellach: 'Yr her fydd i'r cyngor, trwy'r strwythur newydd, barhau ac adeiladu ymhellach ar y gwelliant parhaus yn y gwasanaethau cymdeithasol. Yng nghyd-destun newid trefniadol, bydd AGGCC yn gwneud gwaith dilynol i weld pa un a oes cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol gref o hyd ar gyfer ac, o ran swyddogaeth cyfarwyddwr y gwasanaethau cymdeithasol, bod cydymffurfiad â chanllawiau statudol.'

60 Fel y nodwyd uchod, daeth Estyn i'r casgliad fod gallu'r Cyngor i wella yn dda.

**Mae'r Cyngor wedi cychwyn ar strategaeth i fynd i'r afael â'r heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu. Mae cau'r bwlch ariannol a ragfynegwyd yn dibynnu nawr ar weithredu'r strategaeth hon yn llwyddiannus.**

61 Mae pob cyngor yng Nghymru yn wynebu cyfnod o gyfyngiadau ariannol digynsail ar adeg pan mae'r galw am wasanaethau allweddol ar gynnydd. Mae'r her mor fawr fel bod yn rhaid wynebu penderfyniadau anodd ac ni ellir eu gohirio heb beryglu sefyllfa ariannol y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydnabod na ellir lleihau gwariant yn helaeth heb adolygiad sylfaenol o bwrpas a ffurf y Cyngor. Wrth bennu cynigion ar gyfer ei gyllideb yn y dyfodol, mae'r Cyngor yn mynd ati i geisio mynd i'r afael â'r heriau sy'n ei wynebu ac mae wedi dechrau gweithio ar strategaeth benodol, '*Abertawe Gynaliadwy – Yn Addas i'r Dyfodol*'. Cymeradwyodd y Cabinet y strategaeth hon a'i chyflwyno i'r Cyngor ym mis Hydref 2013, gan sefydlu dull o weithredu sy'n canolbwyntio ar:

- bwrpas craidd y Cyngor;
- trawsnewid gwasanaethau a'r model cyflawni;
- mwy o gydweithrediad â chynghorau eraill a sefydliadau lleol, grwpiau cymunedol a phreswylwyr; ac
- atebion cynaliadwy, a mesurau ataliol yn ganolog iddynt.

62 Datblygwyd y strategaeth ymhellach ym mis Rhagfyr 2013, gydag adroddiad i'r Cabinet a roddai'r newyddion diweddaraf am yr heriau ariannol sy'n wynebu'r Cyngor. Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys rhaglen arfaethedig ar gyfer arbed arian, yn cynnwys argymhellion penodol ar gyfer 2014-15 a'r blynyddoedd i ddod, ac argymhellion ar gyfer ymgysylltu ac ymgynghori. Tynnai'r adroddiad sylw'n arbennig at y modd roedd setliad ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2014-15 yn wahanol iawn i'r cymorth dangosol y manylwyd arno yn ffigur setliad terfynol y flwyddyn flaenorol. Golygai hyn fod y sefyllfa ariannol £16 miliwn yn waeth na'r rhagdybiaethau a wnaed at ddibenion cynllunio ariannol yng *Nghynllun Ariannol Tymor Canolig* y Cyngor.

63 Cymeradwyodd y Cyngor y gyllideb ar gyfer 2014-15 ym mis Chwefror 2014. Rhagwelir diffyg ar gyfer y flwyddyn o £26 miliwn, a bwriedir talu hwn drwy:

- gynigion penodol ar gyfer arbed arian ac arbedion ffrydiau gwaith gwerth £16.5 miliwn i gyd;
- cynnydd o bump y cant yn y dreth gyngor sylfaenol, gwerth £4.0 miliwn;
- lleihad yn y cyfraniad i'r gronfa wrth gefn o £2.6 miliwn;
- defnydd o'r cronfeydd cyffredinol gwerth £2.2 miliwn i gyd; a
- lleihad yn y ddarpariaeth chwyddiant o £0.9 miliwn.

64 Mae *Cynllun Ariannol Tymor Canolig* y Cyngor yn rhagweld bwlch cyllid cyffredinol o £39 miliwn fan lleiaf rhwng 2014-15 a 2016-17. Deillia hyn o bwysau ariannol a chyllidebol, wedi'u hachosi gan ffactorau fel demograffeg. Caiff y dulliau a amlinellir yn y strategaeth '*Abertawe Gynaliadwy - Yn Addas i'r Dyfodol*' eu defnyddio er mwyn wynebu'r heriau hyn yn y dyfodol. Byddwn yn archwilio trefniadau'n fwy manwl yn ystod 2014-15.

65 Ar gyfer 2013-14, mae'r Cyngor yn rhagweld gorwariant net o £1.7 miliwn mewn cysylltiad â chyllidebau gwasanaethau. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn rhagweld y bydd y sefyllfa hon yn gwella ymhellach o ganlyniad i gamau gweithredu gan y rheolwyr. Mae'r rhan fwyaf o'r gorwariant yn ymwneud â gwasanaethau cymdeithasol, yn deillio'n bennaf o bwysau cyllidebol mewn perthynas â gwasanaethau i blant a theuluoedd; ac addysg, yn benodol ym meysydd cludiant o'r cartref i'r ysgol a'r gwasanaeth cerdd. Mae tanwario ar gyllidebau gwasanaeth eraill a throsglwyddo cronfeydd a ddelid yn flaenorol mewn darpariaeth chwyddiant i gyllidebau gwasanaethau, yn ogystal â'r gronfa wrth gefn a luniwyd i'r diben, yn gwneud iawn am y gorwariant hwn.

## Mae'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

66 Rydym o'r farn fod y Cyngor yn debygol o ateb gofynion y Mesur yn 2014-15. Mae'n parhau i roi camau synhwyrol ar waith i oresgyn y pwysau ariannol sy'n ei wynebu. Mae hefyd yn adolygu ac yn gwella ei gynlluniau corfforaethol a chynllunio gwasanaethau a'i drefniadau adrodd fel eu bod yn fwy priodol ar gyfer yr hinsawdd ariannol gyfredol. Bydd mabwysiadu'r cerdyn sgorio cytbwys yn arbennig yn cynnig system brofedig i alluogi'r Cyngor i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau ac i ystyried yr holl wybodaeth allweddol mewn ffordd integredig er mwyn gallu gwneud hyn.

67 Eto i gyd, rydym yn parhau i bryderu nad yw'r Cyngor eto'n mynd ati'n ffurfiol i fonitro a herio cynnydd ar fynd i'r afael â'n hargymhellion ar gyfer gwella yn eu crynswth. Ni chaiff y rhain eu monitro gan Bwyllgor Archwilio'r Cyngor er enghraifft. Mae'n amlwg fod ein hargymhellion ar gyfer gwella yn cael eu hystyried yn y newidiadau y mae'r Cyngor yn eu gwneud, er enghraifft, i'w drefniadau adrodd corfforaethol a chynnwys ei gynlluniau gwella a pherfformiad. Hefyd, datblygwyd cynllun gweithredu ar ôl arolwg mewn ymateb i arolygiad Estyn ac mae hwn yn cael ei fonitro gan fwrdd gwella a sefydlwyd gan y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, nid oes cysondeb o ran y modd y caiff y dull ei gymhwyso i bob argymhelliad a chynnig rheoleiddiol ar gyfer gwella. Mae'n anodd

gweld, felly, sut y gall y Cyngor fod yn dawel ei feddwl fod camau priodol ar waith i fynd i'r afael â phryderon rheoleiddwyr mewn ffordd amserol. Trafodwyd y mater â'r Cyngor yn flaenorol, a chyflwynwyd adroddiadau ffurfiol yn ei gylch fel argymhelliad ar gyfer gwella yn ein *Llythyr Asesu Gwelliant* i'r Cyngor ar 5 Tachwedd 2013. Byddem yn disgwyl i'r Cyngor roi camau priodol ar waith i ymdrin â'r mater ar fyrder.

68 Er hynny, mae'n gadarnhaol fod tîm rheoli corfforaethol llawn ar waith bellach. Mae pob swydd allweddol wedi'i llenwi ac nid oes unrhyw swyddi gwag ar lefel yr uwch swyddogion. Fel y cyfryw, mae 2014-15 yn cynnig cyfle pwysig i'r Cyngor gytuno a chwblhau'r newidiadau y teimla'u bod yn angenrheidiol i'w drefniadau. Er bod adolygu a gwella trefniadau bob amser yn beth iach i'w wneud, ar ôl cyflawni'r newidiadau hyn, byddai'r Cyngor yn elwa o gyfnod o gyfnerthu er mwyn i'r trefniadau wreiddio'n iawn. Bydd hyn yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa gref i ganolbwyntio ar ei flaenoriaethau a goresgyn yr heriau ariannol sylweddol y mae'n eu hwynebu dros y tair blynedd nesaf.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio ar gyfer gwella o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Abertawe a Chyngor Abertawe

## Y Cyngor

Mae'r Cyngor yn gwario tua £671 miliwn y flwyddyn (2013-14). Mae hyn yn cyfateb i tua £2,807 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, gwariodd y Cyngor £77.1 miliwn ar eitemau cyfalaf hefyd.

Yn 2012-13, y dreth gyngor gyfartalog ar gyfer band D ar gyfer y Cyngor oedd £1,170.06 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 3.4 y cant i £1,209.84 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae saith deg chwech y cant o dai y Cyngor yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 72 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac yn gwneud penderfyniadau ynghylch blaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 4 Ceidwadwyr
- 7 Annibynnol
- 49 Llafur
- 12 Democratiaid Rhyddfrydol

Prif Weithredwr y Cyngor yw Jack Straw. Mae'n cael ei gefnogi gan:

- Cyfarwyddwr – Pobl, Chris Sivers
- Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Corfforaethol, Dean Taylor
- Cyfarwyddwr – Lleoedd, Phil Roberts

## Gwybodaeth Arall

Aelodau'r Cynulliad dros Abertawe yw:

- Edwina Hart, Gŵyr, Y Blaid Lafur
- Mike Hedges, Dwyrain Abertawe, Y Blaid Lafur
- Julie James, Gorllewin Abertawe, Y Blaid Lafur
- Suzy Davies, Gorllewin De Cymru, Y Blaid Geidwadol
- Byron Davies, Gorllewin De Cymru, Y Blaid Geidwadol
- Peter Black, Gorllewin De Cymru, Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
- Bethan Jenkins, Gorllewin De Cymru, Plaid Cymru

Yr Aelodau Seneddol dros Abertawe yw:

- Martin Caton, Gŵyr, Y Blaid Lafur
- Sian James, Dwyrain Abertawe, Y Blaid Lafur
- Geraint Davies, Gorllewin Abertawe, Y Blaid Lafur

Am ragor o wybodaeth, gweler gwefan y Cyngor ei hun yn www.swansea.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth, Abertawe, SA1 3SN.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd David Phillips
Arweinydd
Dinas a Sir Abertawe
Y Ganolfan Ddinesig
Abertawe
SA1 3SA

Annwyl Gynghorydd Phillips

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 25 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor, y Grŵp a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Cabinet am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 17 Medi 2013.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi bod yn seiliedig ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, yn dilyn cyflwyno trefniadau bancio mewnol a rheoli arian parod rhwng y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn yn ystod y flwyddyn, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu feysydd lle gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Nid wyf wedi gallu cyhoeddi tystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2012/13 wedi'i gwblhau gan ein bod ar hyn o bryd yn ystyried nifer o gwestiynau gan etholwyr lleol yn ymwneud â threfniadau trwyddedu tacsis ac ymestyn prydles.

Bydd y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012/13 yn uwch na'r ffi a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol oherwydd yr amser ychwanegol a dreuliwyd yn ymateb i gwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd ac adolygu'r broses o ymestyn prydles. Byddwn yn cytuno ar y ffi derfynol â swyddogion ar ôl datrys y materion hyn.

Yr eiddoch yn gywir

**Kevin Williams (PricewaterhouseCoopers LLP)**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
28 Tachwedd 2013

cc: Jack Straw, Prif Weithredwr
Mike Hawes, Pennaeth Gwasanaethau Ariannol (Swyddog a151)

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Abertawe

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei Gynllun Gwella Corfforaethol *Gweithredu dros Abertawe Well* sydd i'w weld ar wefan y Cyngor yn www.swansea.gov.uk. Maent fel a ganlyn:

| Amcanion gwella 2012-13 | Amcanion gwella 2013-2017 |
|---|---|
| Amcan Gwella 1: Sicrhau bod gan oedolion ifanc, pobl hŷn a gofalwyr fwy o ddewis a rheolaeth dros y gefnogaeth y maent yn ei derbyn trwy drawsnewid y gwasanaethau cymdeithasol i oedolion | Amcan Gwella A: Darparu cefnogaeth i blant yn Abertawe yn ystod y blynyddoedd cynnar fel y byddant yn barod i ddysgu a gwneud cynnydd datblygiadol |
| Amcan Gwella 2: Sicrhau bod plant diamddiffyn yn cael eu diogelu a'u cefnogi trwy gynnal a pharhau â gwelliannau i'r gwasanaethau plant a theuluoedd | Amcan Gwella B: Cefnogi gwella presenoldeb ysgol a chyrhaeddiad pob dysgwr rhwng 3 a 19 oed fel y gall pob un gyflawni ei botensial |
| Amcan Gwella 3 Gwella deilliannau dysgu a helpu disgyblion i gyflawni eu potensial | Amcan Gwella C: Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Plant a Theuluoedd) |
| Amcan Gwella 4: Lleihau gwastraff a chynyddu compostio ac ailgylchu drwy hyrwyddo a hwyluso cyflwyno gwasanaethau rheoli gwastraff ac ailgylchu | Amcan Gwella D: Datblygu partneriaethau, sgiliau ac isadeiledd er mwyn denu a meithrin economi ar sail gwybodaeth, gan greu swyddi yn y sectorau allweddol |
| Amcan Gwella 5: Gwella cyflogadwyedd pobl trwy gynyddu effaith rhaglen adfywio'r cyngor i gynnig a hwyluso hyfforddiant a lleoliadau gwaith | Amcan Gwella E: Hyrwyddo opsiynau credyd a chynilo fforddiadwy a helpu pobl i fwyafu eu hincwm a'u hawliau |

| Amcanion gwella 2012-13 | Amcanion gwella 2013-2017 |
|---|---|
| | Amcan Gwella F: Gwella tai a chyflenwad tai er mwyn cynyddu argaeledd tai fforddiadwy o ansawdd da |
| | Amcan Gwella G: Helpu pobl i ddilyn ffyrdd iach a chynaliadwy o fyw er mwyn gwella eu hiechyd |
| | Amcan Gwella H: Mae pobl yn ddiogel, yn iach ac yn cael eu cefnogi i fyw'n annibynnol (Gwasanaethau i Oedolion) |
| | Amcan Gwella I: Lleihau gwastraff a chynyddu ailgylchu trwy hyrwyddo, gweithio ar y cyd ag eraill a thrwy dargedu ardaloedd â chyfradd ailgylchu isel |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Mae hunanasesiad y Cyngor o berfformiad yn ystod 2012-13 ar gael yn ei *Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012/13* sydd i'w weld ar wefan y Cyngor: www.swansea.gov.uk.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk